



Parc Tŷ Glas Llanisien Llanishen Caerdydd Cardiff Cymru Wales CF14 5DU
Epost Email s4c@s4c.co.uk / Gwefan Website s4c.co.uk
Ffôn Phone +44(0)29 2074 7444 / Ffacs Fax +44(0)29 2075 4444

15/10/2008

**Strategaeth Cynnwys S4C
2009-2013**

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r Strategaeth hon wedi ei llunio'n benodol ar gyfer y cyfnod sy'n pontio dechrau a diwedd y broses o drosglwyddo i ddigidol. Erbyn diwedd y cyfnod allweddol hwn bydd cynulleidfa S4C yn wylwyr digidol a Sianel Gymraeg ar ei phen ei hun fydd S4C. Fe fydd y blynyddoedd yma yn cynnig her unigryw i'r Sianel o ystyried fod nifer sylweddol cynulleidfa S4C ar hyn o bryd yn dal i wyllo'r Sianel ar deledu analog. Ein gobaith yw cynnal eu teyrngarwch trwy gydol y cyfnod cymhleth hwn o newid. Nid ydym yn tanbriso'r sialens sydd yn wynebu'r Sianel a'i phartneriaid wrth fynd ati i geisio cyflawni'r gwaith hwn.
- 1.2 Ein nod sylfaenol yn yr oes ddigidol yw sicrhau fod S4C yn cynnig gwasanaeth amrywiol o safon uchel. Mae'n rhaid i'r cynnwys fod yn ddyfeisgar, gwreiddiol ac atyniadol.
- 1.3 Mae S4C yn cydnabod fod anghenion y gynulleidfa'n newid ac esblygu'n gyson ac fel pob darlledwr arall rydym wedi profi cydgyfeiriant y gwahanol dechnolegau. Mae ein gwaith ymchwil ansoddol a meintiol yn rhoi gwybodaeth i ni sydd yn ein galluogi i ymateb yn y modd mwyaf priodol i anghenion y gynulleidfa. Rydym o'r farn mai teledu fydd prif ganolbwynt ein gweithgareddau am beth amser. Mae darparu cynnwys ar fand llydan yn nodwedd o'n gwasanaeth ac fe fydd rôl gynyddol i'r llwyfannau eraill yn y gwaith o ymestyn effaith a chyrhaeddiad ein cynnwys i'r eithaf. Ond fel darlledwr cyhoeddus rydym yn cydnabod fod yn rhaid i'r gwaith o ddarparu ein gwasanaethau ar unrhyw lwyfan newydd sicrhau gwerth am arian. Mae tyndra amlwg rhwng cyflwyno gwasanaethau newydd a gweithio o fewn cyllideb benodol, o'r herwydd mae'n bosibl na fydd S4C ar gael ar bob llwyfan yn y dyfodol.
- 1.4 Yr iaith Gymraeg yw cyfrwng cyfathrebu S4C, ond rydym yn tystio cryn newidiadau ieithyddol yng Nghymru. Mae ystadegau'n awgrymu fod o leiaf 70,000 o oedolion yn dysgu Cymraeg ar wahanol lefelau yn flynyddol. A phob blwyddyn yn yr ysgolion mae dros 10,000 yn cofrestru ar gyfer TGAU ail iaith. Rydym yn ystyried dysgwyr yn rhan bwysig iawn o'r gynulleidfa. Byddwn yn gweithio i gynyddu gwerth ac apêl S4C i ddysgwyr trwy ddatblygu ein gwasanaeth ar-lein ar eu cyfer gan sicrhau ei fod yn tyfu i'w lawn botensial. Mae'r wefan yn defnyddio technoleg i gynorthwyo ac annog dysgwyr i ddatblygu eu sgiliau trwy ddarparu cyd-destun a gwybodaeth estynedig am raglenni S4C. Trwy ymgyrchoedd marchnata byddwn yn codi ymwybyddiaeth o'r adnodd pwysig hwn ymysg y rhai sy'n dysgu Cymraeg a'r di-Gymraeg.
- 1.5 Yn anochel mae lefelau rhuglder a defnydd o'r iaith Gymraeg yn gwahaniaethu'n sylweddol bellach ac rydym yn adnabod hyn. Byddwn yn adolygu ein Polisi Iaith er mwyn sicrhau ei fod yn ddigon blaengar ac addas i ymdrin â'r newidiadau ieithyddol a chymdeithasol hyn. Nid yw'n fwriad rhoi llai o bwys ar Gymraeg Clir.
- 1.6 Mae'n gwasanaethau mynediad ynghyd â datblygiadau technolegol yn ein galluogi i fod yn fwy hygyrch nac erioed gan roi cyfle i ragor o bobl wyllo rhaglenni S4C. Trwy gyfrwng y botwm coch byddwn yn cyflwyno trac sain Saesneg ar rannau penodol o'r ddarpariaeth. Rydym yn pwysleisio na fydd unrhyw ddatblygiad yn y maes hwn yn cael ei gyflwyno ar draul y gwasanaeth iaith Gymraeg.
- 1.7 Mae'r Bartneriaeth Strategol gyda'r BBC yn cryfhau'r ddarpariaeth yn yr iaith Gymraeg ar wasanaethau S4C ar deledu ac ar-lein. Mae'r Bartneriaeth wedi ei chytuno hyd y Siarter Brenhinol nesaf. Byddwn yn parhau i weithredu o dan yr un strwythur, gan sicrhau fod y Cynllun Rhaglenni sy'n cael ei gytuno gyda'r BBC yn gyson â'r Strategaeth hon.
- 1.8 Mae Strategaeth Rhagoriaeth Greadigol 2004 wedi gosod sylfaen gadarn ac wedi ail-ddiffinio'r Sianel, yr her nawr yw adeiladu ar ein darpariaeth er mwyn cynnig gwasanaeth cyflawn o sylwedd sy'n rhoi'r gwerth gorau i'r gynulleidfa. Mewn partneriaeth gyda'n

cynhyrchwyr gobeithiwn wireddu ein hawydd i weithio mewn ffyrdd dyfeisgar a chreadigol. Yr oriau brig fydd ffenestr y siop lle bydd rhaglenni diffiniol ac adloniannol yn mynnu safonau cynhyrchu uchel a buddsoddiad priodol ar gyfer y rhan hon o'r amserlen. Byddwn yn buddsoddi ymhellach mewn cynnwys sy'n arddangos creadigrwydd arbennig ac unigryw gan annog ein cynhyrchwyr bryd hynny i wneud y mawr yn fwy er mwyn sicrhau effaith sylweddol a phell gyrhaeddol ar yr amserlen a'r gynulleidfa. Yr ydym yn cydnabod nad yw'n bosibl rhoi'r un gefnogaeth i'r arlwy gyfan ac yn nodi'r angen am gynnwys priodol ar gyfer adegau eraill o'r dydd a'r nos sy'n adlewyrchu anghenion y gwylwr mewn modd addas, gwreiddiol a difyr.

- 1.9 Mae'n Strategaeth ar gyfer plant yn gyffrous a hirdymor. Mae'n gwasanaeth meithrin **Cyw** eisoes wedi cael croeso cynnes. Cam wrth gam byddwn yn gwireddu ein dyhead i gyflwyno gwasanaethau i blant o bob oed. Bydd rhaglenni ar eu cyfer hefyd yn parhau'n rhan allweddol o ddarpariaeth y brif sianel. Mae cyflwyno plant yn gynnar i S4C yn annog teyrngarwch i'r sianel ac i'r iaith Gymraeg.
- 1.10 Yn ystod 2009 a 2010 bydd teledu analog yn cael ei ddiffodd yng Nghymru mewn un ardal ar ôl y llall. Byddwn yn rhoi sylw arbennig yn yr amserlen i'r ardaloedd yn eu tro wrth iddyn nhw droi i'r byd digidol yn unig. Y bwriad yw eu cynorthwyo i addasu a'u cyflwyno i arlwy gyfan S4C digidol.
- 1.11 Er mwyn sicrhau eu defnydd at y dyfodol byddwn wedi cyrraedd y nod o sicrhau fod ein rhaglenni wedi eu cynhyrchu mewn Manyllder Uwch erbyn 2012.
- 1.12 Rydym yn cydnabod fod Cynllun Cyfathrebu yn hanfodol ar gyfer llwyddiant y Strategaeth hon. Byddwn yn defnyddio dulliau marchnata a hyrwyddo newydd yn ogystal â'r trefniadau mwy traddodiadol i roi gwybodaeth i'n gwylwyr a thargedu pobl nad sy'n gwyllo'r Sianel ar hyn o bryd.

2. Yr Amserlen

- 2.1 Gan mai Sianel Gymraeg yn unig fydd S4C digidol heb yr angen i ddangos rhaglenni Saesneg bydd yr amserlen ddyddiol yn canolbwyntio ar bedwar rhan o'r diwrnod - bore, prynhawn, oriau brig a hwyr.
- 2.2 Bydd patrwm cyson gan amlaf ar gyfer dyddiau'r wythnos, gyda'r oriau brig yn brif flaenoriaeth. Bydd gwasanaeth Newyddion a Thywydd rheolaidd.
- 2.3 Yn anochel fe fydd y pedwar tymor a'r gwyliau cysylltiedig yn torri ar y patrwm dyddiol craidd. Fe fyddwn hefyd yn sicrhau hyblygrwydd er mwyn gallu ymateb yn gyflym i ddiwyddiadau neu syniadau rhaglenni sydd ynghlwm ag amser. Byddwn hefyd yn agor yr amserlen ar gyfer prosiectau uchelgeisiol fydd yn creu argraff.
- 2.4 Ar ôl sicrhau gwasanaeth cyflawn ar S4C digidol o 07.00 y bore tan yr hwyr, byddwn wedyn yn ystod y tair blynedd nesaf yn troi'n golygon at y penwythnosau. Bydd rhaglenni ar gyfer plant yn nodwedd amlwg o ddatblygiad y ddarpariaeth ar y Sadwrn a'r Sul.

- 2.5 Rydym yn cydnabod yr angen i ostwng y defnydd o'r un rhaglenni o fewn cyfnodau penodol. Byddwn yn edrych i daro'r cydbwysedd rhwng sicrhau effaith a chyrhaeddiad rhaglenni unigol trwy eu hail-ddarlledu. Ond byddwn yn ceisio sicrhau nad yw hyn ar draul mwynhad y gynulleidfa sy'n gwyllo'n gyson. Fe fyddwn yn gwneud defnydd o archif gyfoethog y sianel, yn ogystal ag edrych am ffyrdd dyfeisgar o ail-fersiynu elfennau o'r archif. Bydd cynnwys o'r fath yn cael ei ddarlledu ar adegau priodol gan roi ystyriaeth i ddisgwyliadau'r gynulleidfa ar gyfer gwahanol rannau o'r diwrnod.

Bore

Fe fyddwn yn comisiynu rhaglenni meithrin ar gyfer y cyfnod hwn ond nid oes bwriad i gomisiynu cynnwys mewn meysydd eraill. Bydd y bore'n cael ei ddefnyddio i barhau â'n gwasanaethau estynedig ar gyfer plant.

Prynhawn

Bydd y buddsoddiad mewn rhaglenni ar gyfer y prynhawn yn adlewyrchu'r niferoedd sydd ar gael i wyllo ac yn nodweddu natur y gynulleidfa honno. Fe fydd yr arlwy yn cynnig cyfuniad o raglenni gwreiddiol ag ailddarllediadau yn ogystal â defnydd o'r archif. Bydd y cyfnod hwn hefyd yn cynnwys rhaglenni penodol ar gyfer plant.

Oriau Brig

Yr oriau brig yw ein prif flaenoriaeth. Byddwn yn sicrhau buddsoddiad priodol yn yr oriau hyn er mwyn cynnig cynnwys rhagorol o'r safon uchaf i'r gynulleidfa ac i ddenu nifer sylweddol o wylwyr.

Hwyr

Rydym yn cydnabod fod yn rhaid i ni gryfhau ein harlwy y tu allan i'r oriau brig. Byddwn yn atgyfnerthu'r cynnwys gwreiddiol sydd ar gael ar gyfer y cyfnod hwn. Rydym yn nodi'r angen am raglenni amrywiol ar gyfer oedolion.

3. Gwasanaeth Rhaglenni a Chynnwys S4C

- 3.1 Darlledwr cyhoeddus yw S4C, ac mae'n rhaid i'r ddarpariaeth ateb y gofynion sy'n angenrheidiol i gyflawni'r swyddogaeth honno. Y gynulleidfa sydd wrth galon ein gwasanaethau, ac mae disgwyliadau'r gynulleidfa ohonom yn uchel iawn. Mae'n anodd i un sianel â chyllideb gyfyngedig i ddiwallu'r holl ddyheadau ac anghenion hynny. Y sialens yw darparu'r amrywiaeth briodol o raglenni a chynnwys ar gyfer darlledwr cyhoeddus gan gynnig y gwerth a'r mwynhad gorau i'r gynulleidfa Gymraeg.
- 3.2 Fe fyddwn yn rhoi rhagor o bwyslais ar adnabod pwrpasau a nodweddion comisiynau unigol. Wrth wneud hyn byddwn yn ystyried targedau cynulleidfa o ran niferoedd, demograffeg cynulleidfa neu ddiben darlledu cyhoeddus penodol.
- 3.3 Mae cynnal a datblygu ein gwasanaethau yn gofyn am raglenni sy'n ddyfeisgar, gwreiddiol ac unigryw. Mae hynny'n ei dro yn pwysleisio'r angen am ddealltwriaeth glir o'r datblygiadau cyson ym maes technoleg a'r newidiadau arloesol mewn darlledu, er mwyn gallu creu cynnwys nodedig. Mae stori dda yn hanfodol ym mhob maes a rhaid ei chyfathrebu i'r gynulleidfa mewn Cymraeg dealladwy, clir a syml. Byddwn hefyd yn rhyngweithio mwy gyda'r gynulleidfa, gan agor y drws yn lletach i'w barn a'u cyfraniad nhw.

4. Digwyddiadau a Theledu Achlysur

- 4.1 S4C yw cartref digwyddiadau byw o ddiddordeb Cymreig. Mae ein gwaith ymchwil yn tynnu sylw at bwysigrwydd hyn a gwerthfawrogiad ein cynulleidfa o rôl a gwaith y Sianel yn y maes pwysig hwn. Fe fyddwn yn parhau i flaenoriaethu, buddsoddi ac ehangu ein darpariaeth. Mae'r Eisteddfodau, Y Sioe Frenhinol, Chwaraeon, Gwyliau a Pherfformiadau Cerddorol amrywiol yn cael eu darlledu'n fyw ac am oriau estynedig ar y sianel. Wrth i fwy o bobl fanteisio ar ddulliau technolegol i wyllo rhaglenni ar adegau o'u dewis hwy, mae darllediadau o ddigwyddiadau fel hyn yn creu uchafbwyntiau cyd-wyllo pwysig. Byddwn yn parhau i gynnig cyfleoedd i wyllo a mwynhau ar wahanol lwyfannau o'r digwyddiadau gan annog dyfeisgarwch pellach er mwyn rhoi boddhad a dewis i'r gwylwyr.
- 4.2 Mae cyfleoedd cyffrous ar gael a byddwn yn annog syniadau i greu achlysuron aml-lwyfan o ddigwyddiad neu raglen. Bydd hi'n angenrheidiol creu profiad rhyngweithiol, cymunedol, hwyliog a dyrchafol.

5. Newyddion a Materion Cyfoes

- 5.1 Mae'r argyfwng sy'n wynebu newyddiaduraeth ranbarthol ar hyn o bryd yn cynyddu pwysigrwydd S4C yn y maes hwn. Fel darlledwr cyhoeddus mae'n ddyletswydd arnom i addysgu a rhoi gwybodaeth i'r gynulleidfa gan gynyddu eu dealltwriaeth o Gymru a'r byd trwy newyddion, gwybodaeth a thrwy ddadansoddi digwyddiadau a syniadau cyfoes.
- 5.2 Ynghanol y cannoedd o ffynonellau gwybodaeth yr her i S4C ac i ddarparwyr newyddion a gwybodaeth y Sianel yw cynnig golwg a phersbectif unigryw ar yr hyn sy'n digwydd yn y Gymru newydd.
- 5.3 Bydd S4C yn gweithio i ddiwallu anghenion y gynulleidfa gyfan trwy gynnig rhaglenni newyddion a materion cyfoes o fewn arlwy'r Sianel gydag amlygrwydd yn yr oriau brig. Byddwn hefyd yn datblygu gwasanaethau newydd cynhwysfawr Cymreig di-dor ar-lein fydd yn ateb galwadau cynulleidfaoedd llai traddodiadol ac ieuengach.
- 5.4 Nod S4C gyda'i phartneriaid yw cynnig gwasanaeth newyddion a materion cyfoes cyflawn a chyson ar gyfer Sianel Gymraeg sy'n arddangos hunaniaeth, gyda'r prif bwyslais ar straeon o Gymru. Byddwn o fewn yr amserlen yn sicrhau darpariaeth gynhwysfawr fydd yn cynnig gwybodaeth, rhoi arwyddocâd a chyd-destun i bobl Cymru am y penderfyniadau sy'n cael effaith ar eu bywydau. Byddwn hefyd yn rhoi mwy o gyfle i'r gynulleidfa fynegi barn ar bynciau'r dydd. Mae datganoli a grymoedd newydd y Cynulliad a'r newidiadau cymdeithasol a gwleidyddol a ddaeth ac a ddaw yn eu sgil yn galw am ragor o ddadansoddi, egluro a thrafod.
- 5.5 Wrth i S4C barhau i wireddu dyhead i gynyddu gwasanaethau i blant a phobl ifanc bydd y cynnydd hwn hefyd yn cael ei adlewyrchu ym maes newyddion.
- 5.6 Er mwyn cael safbwyntiau golygyddol gwahanol o fewn yr amserlen byddwn yn parhau i dderbyn ein rhaglenni materion cyfoes a ffeithiol newyddiadurol gan fwy nag un cyflenwr. Bydd pwyslais y rhaglenni hyn hefyd ar newyddiaduraeth drwyadl, torri straeon a rhoi gwybodaeth a chyd-destun mewn modd difyr i'r gynulleidfa Gymreig.

6. Ffeithiol a Diwylliant

- 6.1 Mae adlewyrchu a chryfhau hunaniaeth ddiwylliannol yn rhan annatod o ddyletswydd darlledwr cyhoeddus yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth o ddiwylliannau eraill a safbwyntiau gwahanol. Ym maes ffeithiol byddwn yn bwrw ati i gynnig gwybodaeth ac ysgogi diddordeb mewn hanes, y celfyddydau, gwyddoniaeth a phynciau eraill.
- 6.2 Cymru a golwg Gymreig ar y byd fydd canolbwynt y maes rhaglenni eang hwn. Byddwn yn cynnig golwg unigryw ar y Gymru gyfoes ei gwedd, ei datblygiad a'i hanes ac yn edrych ar weddill y byd trwy lygaid Cymreig. Mae cyd-gynhyrchiadau rhyngwladol uchelgeisiol lle mae'r mewnbyn Cymreig yn amlwg yn fodd i ni gryfhau hyn ymhellach. Mae S4C wedi llwyddo i safleoli ei hun fel prif ddarparwr rhaglenni gwledig, a bydd cynnwys yn y maes hwn yn amlwg yn yr amserlen.
- 6.3 Byddwn yn annog amrywiaeth yn y mathau o raglenni a'u gwneuthuriad yn ogystal â chynlluniau aml-lwyfan.
- 6.4 Byddwn yn pwysleisio'r angen am sgrïptio eglur, hawdd ei ddeall mewn Cymraeg clir gyda chyflwynwyr gafaelgar sydd â chrebwyll a dawn dweud stori.

7. Chwaraeon

- 7.1 Rygbi a pêl-droed yw ein prif chwaraeon, ac rydym yn awyddus fod S4C yn defnyddio ac yn sicrhau hawliau i ddarlledu gemau'n fyw ac ecsgliwsif ochr yn ochr â darpariaeth gynhwysfawr ac amrywiol. Mae sicrhau hawliau yn allweddol ym maes chwaraeon er mwyn rhoi cyfleoedd i'r Sianel ddenu cynulleidfaoedd sylweddol yn ogystal â gwylwyr newydd a llai cyfarwydd â'n rhaglenni. Mae presenoldeb amlwg yn y byd hwn yn ymestyn cyrhaeddiad a phroffil S4C ac ymwybyddiaeth pobl o'r Sianel. Rydym serch hynny yn cydnabod natur amhendiant hawliau chwaraeon a'r gystadleuaeth gynyddol ffyrnig am hawliau allai effeithio ar ein dyheadau yn y maes hwn.
- 7.2 Mae hygredd ac arbenigedd wrth ymdrin â'r campau yn hanfodol bwysig. Mae'n angenrheidiol hefyd fod ein darpariaeth yn arddangos dyfeisgarwch a thechnegau newydd wrth ddod â'r gamp i'r sgrîn a llwyfannau eraill. Byddwn yn annog dulliau gweledol a golygyddol sy'n torri tir newydd wrth ymdrin â chwaraeon.
- 7.3 Yn ogystal â digwyddiadau chwaraeon byw ac uchafbwyntiau byddwn yn rhoi sylw i gampau amrywiol mewn rhaglenni mwy ffeithiol neu adloniant eu naws er mwyn apelio at ystod ehangach o'r boblogaeth gan ddenu gwylwyr o wahanol oedrannau. Er mwyn sicrhau fod y nifer mwyaf o bobl Cymru yn gallu mwynhau ein darpariaeth yn y maes hwn byddwn yn datblygu ffyrdd i sicrhau gwell argaeledd a hygyrchedd.

8. Ffuglen ac Adloniant

- 8.1 Rydym yn ystyried ei bod yn bwysig i S4C gynnal ei buddsoddiad yn y maes cystadleuol hwn.
- 8.2 Mae dramâu, cyfresi a chyfresi unigol sy'n denu'r teulu cyfan yn hanfodol i'r amserlen, ond byddwn hefyd yn annog syniadau dyfeisgar a gwreiddiol.
- 8.3 Bydd o leiaf un cynhyrchiad ym maes ffuglen ac adloniant yn ffurfio un o brif uchelfannau'r sianel yn flynyddol ac yn cael ei gefnogi gan strategaeth farchnata briodol i sicrhau y gwerth gorau a'r effaith mwyaf. I'r perwyl hwn byddwn yn annog syniadau uchelgeisiol fydd yn creu cyffro a thrafodaeth. I'r pegwn arall mae angen i'r amserlen hefyd gynnig adloniant a ffuglen syml, hawdd i'w gwyllo a'u mwynhau.

- 8.4 Mae ein gwaith ymchwil yn nodi fod y gynulleidfa'n dyheu am ragor o raglenni comedi ac adloniant yn y Gymraeg. Mae'r angen yma yn fwyaf amlwg ymhlith oedolion dan 44 oed. Byddwn yn blaenoriaethu'r gwaith o ymateb i'r her.

9. Plant

- 9.1 Yn unol â'r camau sydd eisoes wedi eu cymryd a'r hyn a nodir yn Ymgynghoriad Awdurdod S4C - Gwasanaethu Plant yn y Dyfodol Digidol byddwn yn parhau i ymestyn ein darpariaeth ar gyfer plant o bob oed gan sicrhau cynnwys cyffrous, gwreiddiol ac amrywiol ar eu cyfer. Byddwn yn ymestyn ein gwasanaethau i blant i gynnwys y penwythnosau.
- 9.2 Yr un nodweddion a blaenoriaethau fydd i'r cynnwys i blant a'r hyn a nodir yn y Strategaeth ar gyfer y Sianel gyfan. Serch hynny, byddwn yn rhoi pwyslais pellach ar sicrhau fod y rhaglenni teledu yn cael eu hatgyfnerthu gan gynnwys ar gyfer llwyfannau eraill fydd yn cyfoethogi'r profiad gwyllo. Mae'n hanfodol bwysig hefyd ein bod yn cynnig ffyrdd i blant a theuluoedd sy'n dysgu neu sy'n llai cyfarwydd â'r iaith Gymraeg i ddefnyddio ac elwa o'r buddsoddiad yn y gwasanaethau.
- 9.3 Bydd angen ystod eang o raglenni ar gyfer cynnal y gwasanaethau ar gyfer y gwahanol oedranau. Bydd y rhaglenni a'r cynnwys ar gyfer y plant ieuengaf yn dangos fod dysgu a thyfu yn hwyl. Byddwn yn sicrhau fod cymeriadau newydd sbon yn cael eu cyflwyno i'r arlwy fydd yn tyfu i fod yr un mor boblogaidd ac adnabyddus a'r hen ffefrynnau.
- 9.4 Er bod rhaglenni adloniannol yn hanfodol i'r arlwy i blant oedran cynradd byddwn yn rhoi pwyslais pellach ar raglenni ffeithiol difyr a rhaglenni sy'n rhoi cyfle i blant drafod ac ymateb i bynciau sydd o bwys iddyn nhw.
- 9.5 Mae'n hanfodol ein bod yn cysylltu â phlant yn y modd a'r amser mwyaf addas iddyn nhw. Bydd y rhaglenni i blant hŷn yn rhan o wasanaeth cydgyfeiriol fydd yn cynnig cynnwys arloesol a rhyngweithiol. Byddwn yn rhoi llwyfan iddyn nhw hefyd i ymateb a chyfrannu at ddadleuon cyfoes a materion sy'n berthnasol iddyn nhw.
- 9.6 Byddwn hefyd yn sicrhau fod nifer sylweddol o'r rhaglenni sy'n cael eu darlledu yn ystod yr oriau brig yn apelgar ac adloniannol i'r gwylwyr iau a'u teuluoedd.

10. Talent

- 10.1 Mae sgiliau uchel yn holl bwysig i alluogi S4C i gyflawni'r Strategaeth hon. Bydd adnabod, meithrin a chadw talent yn allweddol i lwyddiant S4C wrth symud yn ei blaen. Mae S4C yn disgwyl i'r sector gyflwyno cynlluniau hyfforddi er mwyn hyrwyddo dyfeisgarwch. Rydym hefyd yn cynnig ysgoloriaethau er mwyn cefnogi datblygiad talent a chryfhau ein cynnwys.

11. Comisiynu

- 11.1 Mae perthynas S4C gyda'r sector gynhyrchu annibynnol wedi ei diffinio yng nghyd-destun y Cod Ymarfer, y Telerau Masnach ar sail egwyddorion masnachu teg, y Cynllun Corfforaethol a bwriadau'r Strategaeth hon.
- 11.2 Fe fyddwn yn parhau i ddefnyddio proses gomisiynu ddi-dor er mwyn annog creadigrwydd trwy gydol y flwyddyn ac yn parhau'n â'n polisi tendro agored fel dull o sicrhau gweithredu cystadleuol.

- 11.3 Bydd y syniadau a gynigir yn parhau i gael eu hasesu yn ôl yr isod:
- addasrwydd ar gyfer cyflawni amcanion strategol;
 - argaeledd cyllideb briodol;
 - gallu creadigol y cwmni cynhyrchu;
 - gallu'r syniad i gyflawni amcanion darlledu cyhoeddus neu fasnachol.
- 11.4 Byddwn yn gosod nod benodol ar gyfer ein rhaglenni. Byddwn yn ystyried gallu'r rhaglen i ddenu cynulleidfa sylweddol neu briodol, ehangu cyrhaeddiad neu gyflawni un o briod nodweddion darlledwr cyhoeddus sydd weithiau'n denu nifer llai o wylwyr. Yn anochel fe allai hyn arwain at newidiadau i'n harlwy bresennol.
- 11.5 Yn dilyn adolygiad o'r Gadwyn Gyflenwi byddwn yn gweithredu rhai newidiadau er mwyn sicrhau dyfeisgarwch ac ymatebolrwydd y sector i'r gynulleidfa o dro i dro.

Rhian Gibson
Cyfarwyddwr Comisiynu
15 Hydref 2008